PECYN ATHRAWON CYMRIX

Cwmni Theatr Arad Goch

ARFOR

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

TIM CYMRIX

Actorion	Hannah Novello Jacob Oakley Isabella Colby Browne
Dramodydd	Alun Saunders
Cyfarwyddwr	Ffion Wyn Bowen
Rheolwr Llwyfan	Carys-Haf Williams
Cyfansoddwr	Marc Thomas
Cynllunydd Set a Gwisgoedd	Luned Gwawr
Adeiladwr / Saer	E.P. Installation & Joinery
Cynorthwydd i'r Cynllunydd	Polly Walker-Penn
Pecyn Athrawon	Mared Llwyd Lowri Page

STAFF ARAD GOCH

Cyfarwyddwr Artistig	Ffion Wyn Bowen
Cyfarwyddwr Busnes	Nia Wyn Evans
Swyddog Cyswllt Ysgolion	Anne Evans
Clerc	Ann Penny
Rheolwr Technegol	Marc Thomas
Swyddog Marchnata	Lowri Page
Cydlynydd Celfyddydau Cymunedol	Gruffydd Huws

Arad Goch

CAST A CHRIW CYMRIX

HANNAH NOVELLO
ACTOR

JACOB OAKLEY
ACTOR

ISABELLA COLBY BROWNE
ACTOR

CARYS-HAF WILLIAMS
RHEOLWR LLWYFAN

ALUN SAUNDERS
DRAMODYDD

FFION WYN BOWEN
CYFARWYDDWR

LUNED GWAWR
CYNLLUNYDD

MARC THOMAS
CYFANSODDWR

CYFLWYNIAD I CYMRIX

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Theatr Arad Goch wedi derbyn sawl cais gan athrawon ac ymgynghorwyr addysg am gynhyrchiad sydd yn ymdrin â hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg. Mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod yna ofid am ddirywiad yn y defnydd o'r Gymraeg ymysg ein plant a'n pobl ifanc, a diffyg balchder o berthyn i genedl Gymreig.

Ein hymateb i'r ceisiadau yna yw'r ddrama newydd hon i ysgolion cynradd ac uwchradd, CYMRIX sydd wedi bod mewn datblygiad ers cwpwl o flynyddoedd erbyn hyn.

Yn gyntaf wnaethon ni droi at blant i gael eu sylwadau a'u barn nhw am y pwnc. Fe wnaeth Mari Rhian Owen ymweld â sawl ysgol gynradd gan ddefnyddio y celfyddydau mynegiannol er mwyn ennyn trafodaeth gyda grwpiau bychan o ddisgyblion Cymraeg a di-Gymraeg, er mwyn cael trawstoriad o safbwyntiau. Rhoddwyd cyfle i'r disgyblion holi ei gilydd a thrafod ymysg ei gilydd er mwyn archwilio eu barn nhw am Gymru a'r iaith Gymraeg.

Beth ydych chi'n hoffi am Gymru?

Beth mae pobl Cymru yn gwneud yn dda?

Beth fyddech chi'n gwneud er mwyn creu Cymru perffaith?

Beth yw eich hoff lyfr Cymraeg?

Beth sydd ddim cystal am Gymru?

Sawl iaith sy'n cael ei siarad yng Nghymru?

Recordiwyd y sylwadau a'r trafodaethau a chawsom oriau o sgyrsiau difyr, doniol ac onest y disgyblion, oedd yn sail gadarn i gamau nesaf y gwaith.

Misoedd yn ddiweddarach, fe wnes i ddefnyddio yr ymatebion yr oedd Mari wedi casglu fel sbardun ar gyfer cam nesaf y broses. Rhagor o ymweliadau gydag ysgolion cynradd ac uwchradd gwahanol er mwyn canolbwyntio ar rhai agweddau penodol o'r thema. Roedd hi'n bwysig i ni ein bod yn sicrhau bod llais y disgyblion yn gryf o fewn y gwaith terfynol.

Defnyddiwyd ymarferion Drama ymarferol gyda'r disgyblion fel modd i drafod ac ystyried beth mae'r wlad a'r iaith yn golygu iddynt yn bersonol, ac i eraill y tu allan i Gymru. Trafodwyd y syniad o golled hefyd – sut fyddai byw yng Nghymru petai yr iaith yn diflannu? Sut fyddai hyn yn effeithio ein bywydau ni yn bersonol? Dechreuodd y plant weithio mewn grwpiau i greu cyflwyniadau byrion fyddai'n hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg. Roedd hi'n gadarnhaol profi ymateb angerddol y bobl ifanc o bob cefndir tuag at y thema – yn Gymry Cymraeg naturiol, yn siaradwyr Cymraeg newydd a'r disgyblion di- Gymraeg.

Yr angerdd yna roeddwn ni eisiau yn y perfformiad, felly comisiynu y dramodydd Alun Saunders i wireddu y syniadau oedd cam nesaf y cynhyrchiad. Bwriad CYMRIX yw cynrychioli safbwynt a theimladau pobl ifanc heddiw mewn ffordd bositif, gonest a doniol fydd yn gwneud i'r gynulleidfa chwerthin ond hefyd i feddwl ac ystyried, gan sbarduno mwy o drafod a sgwrsio am beth yw bod yn Cymry ac yn Gymraeg iddyn nhw, ond gan barchu bod yna safbwyntiau amrywiol ar y pwnc, a bod profiadau pawb yn werthfawr ac yn bwysig.

Fel gyda phob gwaith celfyddydol does dim ateb cywir nac anghywir i'r cynhyrchiad, ond y cyfle i drafod, i feddwl ac i ystyried beth yw perthyn iddyn nhw yng nghyd destun teulu, yr ysgol, y gymuned yn ehangach a'u lle nhw yn y byd. Diolch yn fawr i'r disgyblion a'r ysgolion am eu cyfraniad gwerthfawr i'r broses o greu CYMRIX.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau y perfformiad, os oes gennych unrhyw sylwadau yn dilyn ein hymweliad, bydden ni wrth ein boddau yn clywed gennych, cysylltwch gyda ni ar post@aradgoch.org

Ffion Wyn Bowen
Cyfarwyddwr Artistig Arad Goch / Cyfarwyddwr CYMRIX

CYFLWYNIAD I'R PECYN ATHRAWON

Ceir yma awgrymiadau o weithgareddau y gellir eu gwneud ar ôl gwylio'r perfformiad; rydym yn hyderus y byddwch chi, yr athrawon, yn llawn syniadau am weithgareddau eraill ar ôl i chi weld y perfformiad!

Yn sail i'r pecyn athrawon mae'r syniad o gynnig ystod o ysgogiadau i ddysgwyr Blynyddoedd 5, 6 a 7 a fydd yn esgor ar eu hymateb mewn amrywiol ffyrdd i gymeriadau a digwyddiadau'r ddrama. Y bwriad yw cynnig amrywiaeth o gyd-destunau ac ysgogiadau i'r dysgwyr a fydd yn datblygu eu sgiliau trafod, mynegi barn ac empathi, yn ogystal â sgiliau mandadol trawsgwricwlaidd Cwricwlwm i Gymru, sef llythrennedd, rhifedd a chymwyseddau digidol. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a awgrymir yn y pecyn yn cynnig cyfle i gymhwyso a datblygu eu sgiliau ymhellach ar draws Chwe Maes Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm:

- **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**
- **Mathemateg a Rhifedd**
- **Y Celfyddydau Mynegiannol**
- **Y Dyniaethau**
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg (yn benodol Technoleg Ddigidol)**
- **Iechyd a Lles**

Cynlluniwyd y gweithgareddau er mwyn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr sylweddoli pedwar diben y Cwricwlwm yn ogystal, sydd â'r bwriad o helpu pob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu i fod yn:

- **Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog**
- **Gyfranwyr mentrus, creadigol**
- **Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd**
- **Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

AWGRYMIADAU O WEITHGAREDDAU

Dyma awgrymiadau o weithgareddau posibl y gallai dysgwyr eu gwneud yn seiliedig ar y ddrama:

Y dysgwyr mewn grwpiau i ddefnyddio rhai o'r cardiau trafod (Atodiad 1) fel sbardun ar gyfer **gwaith trafod a mynegi barn**.

Ar ôl trafod y gwahanol emosiynau a theimladau mae Kaia, Nico ac Aden yn eu profi yn ystod y ddrama (e.e. cyffro, nerfusrwydd, rhwystredigaeth, dicter, ofn, ansicrwydd, balchder, ayyb), gallai'r dysgwyr fynd ati mewn grwpiau i greu **lluniau llonydd** er mwyn cyfleu rhai o'r emosiynau a'r teimladau hyn.

Gallai'r dysgwyr **chwarae rôl** neu **ysgrifennu deialog** i gyd-fynd ag un o olygfeydd y ddrama (e.e. golygfa rhwng Kaia a'i rhieni, golygfa rhwng Aden a Jodie a Kim, ei rieni maeth, neu olygfa rhwng Nico a'i dad; sgwrs rhwng Aden a Mr. Davies/Greasy Kev, y dirprwy bennaeth; yr olygfa rhwng Aden a'i chwaer fach Tirion; ayyb). Gallent ddychmygu golygfa nad yw'n rhan o'r ddrama (e.e. sgwrs rhwng Huw Hafan neu Mr. Davies y dirprwy â'r tri ffrind yn dilyn y cyflwyniad yn y gwasanaeth) fel golygfa ychwanegol er mwyn cloi'r ddrama.

Ar ôl trafod eu swyddi delfrydol, gallai'r dysgwyr greu **hysbyseb swydd** neu **manyleb person** ar gyfer y swydd honno, gan ystyried beth fyddai'r rhinweddau addas ar gyfer y swydd. Gallent hefyd ysgrifennu **llythyr cais** dychmygol er mwyn ymgeisio am y swydd.

Gallai'r dysgwyr ysgrifennu **adolygiad o'r ddrama**, neu greu **adolygiad llafar**, ar gyfer dysgwyr eraill o'r un oed â nhw (gan ganolbwyntio ar nodweddion megis cymeriadau, themâu, plot, llwyfannu, iaith/arddull y sgript, cynulleidfa darged, ansoddeiriau addas i ddisgrifio'r ddrama, ayyb).

Y dysgwyr i weithio mewn grwpiau bach er mwyn meddwl am **gwestiynau addas** i'w holi i Kaia, Nico ac Aden cyn cymryd tro i **chwarae rôl** y cymeriadau yn y **Gadair Goch** er mwyn holi ac ateb y cwestiynau. (Gallent wneud yr un weithgaredd yn seiliedig ar rai o'r is- gymeriadau hefyd – e.e. Huw Hafan; Jodie, un o famau faeth Aden; tad Nico; un o rieni Kaia

Gallai'r dysgwyr drafod a chymharu'r **tri phrif gymeriad** gan lunio rhestr o'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu amdanyn nhw (e.e. personoliaeth, ymddygiad, cefndir, teimladau, credoau, dyheadau/ breuddwydion, ayyb). Pa ansoddeiriau fydden nhw'n eu defnyddio i ddisgrifio'r tri? Beth sy'n debyg/gwahanol rhwng y tri? Sut mae'r tri chymeriad yn newid/ datblygu yn ystod y ddrama? Beth ydych chi'n ei hoffi/ edmygu am y tri chymeriad? Yna, gallent weithio mewn parau/ grwpiau bach er mwyn **cyflwyno cymaint o wybodaeth** ag y gallan nhw am bob cymeriad o fewn munud. Gallai'r gwaith hwn arwain wedyn at waith ysgrifennu **portread** o un neu'r tri ohonynt.

Y dysgwyr i geisio **crynhoi'r hyn sy'n digwydd yn y ddrama** ar lafar wrth bartner o fewn munud/ munud a hanner/ cyfnod amser penodol. Neu, gallent weithio mewn parau er mwyn adrodd stori'r ddrama ar ffurf **gweithgaredd Ping Pong** (un ohonynt i ddweud brawddeg am yr hyn sy'n digwydd, yna'r partner i barhau â brawddeg, yna yn ôl at y siaradwr gwreiddiol i barhau â brawddeg arall, ayyb, am gyfnod amser penodol, gan geisio adrodd stori'r ddrama yn gronolegol ac yn gryno).

Y dysgwyr i weithio mewn parau neu grwpiau bach i **greu map meddwl** o'r hyn mae Cymru a Chymreictod yn ei olygu iddyn nhw.



Gan ddefnyddio naw o'r cardiau yn Atodiad 2 ('Mae Cymro/ Cymraes dda yn...'), y dysgwyr i weithio mewn grwpiau bach i **drafod a mynegi barn** ynglŷn â'r gosodiadau ar bob cerdyn cyn eu graddio ar ffurf **diagram graddio diemwnt** (h.y. gosod y datganiad maen nhw'n cytuno fwyaf ag ef ar frig y diemwnt, yna'r ddau ddatganiad nesaf, yna'r tri nesaf, ayyb, cyn gosod y datganiad maen nhw'n cytuno leiaf ag ef ar waelod y diemwnt. Bydd angen i chi ddewis naw o'r tri ar ddeg datganiad ar y cardiau yn Atodiad 2 cyn iddynt fynd ati i drafod.) Dylid eu hannog i esbonio a rhesymu eu safbwyntiau gydol y dasg ac ystyried sut orau i ddod i gytundeb fel grŵp, gan bwysleisio nad oes ateb 'cywir' nac 'anghywir' i'r dasg, ond mae mynegi a chyfiawnhau safbwyntiau sy'n bwysig. Tybed oes yna ddatganiadau eraill ynglŷn â bod yn Gymro/ Cymraes dda sydd ddim ar y cardiau y caren nhw eu hychwanegu, er mwyn hepgor rhai o'r lleill?

CYTUNO FWYAF



CYTUNO LEIAF

Gallai'r dysgwyr drafod ac yna greu **tair rhestr**:

- Beth yw'r **delweddau nodweddiadol o Gymru a Chymreictod** mae Kaia, Nico ac Aden yn dod ar eu traws wrth ymchwilio i'w prosiect ar ddechrau'r ddrama? (e.e. bara brith, Tom Jones, cawl cennin, rygbi, ayyb).
- Beth yw'r delweddau o Gymru a Chymreictod sy'n cael eu crybwyll yng nghyflwyniad y tri ar ddiwedd y ddrama?
- Beth yw eich syniadau chi o Gymru a Chymreictod?
- Beth sy'n debyg/ gwahanol rhwng y dair rhestr, tybed?

Gallai'r dysgwyr ddefnyddio'u syniadau o'u trafodaethau am Gymru a Chymreictod a'u map meddwl er mwyn gweithio mewn grwpiau bach i greu eu **cyflwyniad** eu hunain mewn cyfrwng o'u dewis i gwmpasu Cymru a Chymreictod.

Gallai'r dysgwyr ysgrifennu **ymson** un o'r tri phrif gymeriad mewn golygfa benodol o'r ddrama (e.e. wrth gyrraedd yr Hafan am y tro cyntaf ar ddechrau'r ddrama/ cyn camu ar y llwyfan yn y gwasanaeth i wneud eu cyflwyniad am Gymreictod ar ddiwedd y ddrama). Neu gallent ysgrifennu ymson y tri chymeriad ar gyfer yr un olygfa, er mwyn cyfleu tri gwahanol bersbectif.

Gallai'r dysgwyr ymchwilio a chreu **taflen wybodaeth**, **pamffled**, **cyflwyniad llafar** neu **fideo digidol** am artist/ band Cymraeg cyfoes neu seren chwaraeon cyfoes o Gymru.

Ar ôl ystyried geiriau Mr. Davies/ Greasy Kev, y dirprwy bennaeth, wrth geisio annog Aden i wneud y cyflwyniad am Gymru a Chymreictod yn y gwasanaeth ar ddiwedd y ddrama:

“Cer i wneud dy hunan yn browd. Ma’n cymeryd tipyn o hunan-hyder a hunan-ymwybyddiaeth i godi fyny o flaen pobl. Creda fi. Alli di wneud hyn”,

Gallai’r dysgwyr **ysgrifennu a pherfformio araith** er mwyn annog ac ysbrydoli rhywun i wneud rhywbeth. (Byddai’r clip o araith Michael Sheen i dîm pêl-droed Cymru cyn iddynt chwarae yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd 2022 yn sbardun da i’r dasg hon).

Gallai’r dysgwyr weithio mewn grwpiau bach er mwyn **trafod a rhestru nodweddion** yr athrawon yn y ddrama (e.e. Ryan Lao, Mr. Davies/ Greasy Kev, Huw Hafan). Beth sy’n debyg/ gwahanol rhwng y tri athro? Beth yw **nodweddion athro da**, ym marn y grŵp?

Gallai'r dysgwyr ymchwilio i hanes **Hen Wlad fy Nhadau** a **baner Cymru**, cyn ymchwilio i **anthemau cenedlaethol a baneri** rhai o wledydd eraill y byd. Gallent drafod – beth sy'n gwneud anthem genedlaethol/baner effeithiol, yn eu barn nhw?



Gallai'r dysgwyr ymchwilio i rai o'r **ieithoedd Celtaidd eraill**, gan wneud gwaith **trin a chymharu data** (faint o bobl sy'n siarad Cymraeg/ Cernyweg/ Llydaweg, ayyb, heddiw?), ymchwilio i **hanes yr ieithoedd Celtaidd**, cymharu **geiriau tebyg** yn y Gymraeg a rhai o'r ieithoedd Celtaidd eraill, **lleoli'r gwledydd Celtaidd** ar fap o'r byd, ac ati.

Ar ôl trafod y berthynas rhwng y tri phrif gymeriad, gallai'r dysgwyr **fynegi barn** ynglŷn â'r **hyn sy'n gwneud ffrind da**. Gallent lunio datganiadau 'Mae ffrind da yn...' i'w harddangos yn y dosbarth. Gallent hefyd weithio mewn grwpiau bach er mwyn dewis datganiadau 'Mae ffrind da yn...' i'w rhoi ar y cardiau gwag yn Atodiad 2 a'u graddio ar **ffurf diagram graddio diemwnt**.

Gallai'r dysgwyr **ysgrifennu cerdd** neu **gyfansoddi rap** (yn unigol neu mewn grwpiau) ar y teitl 'Cymru'.

Gallai'r dysgwyr ysgrifennu **dyddiadur** naill ai Kaia, Nico neu Aden ar noson benodol o stori'r ddrama (e.e. y noson wedi i Huw Hafan osod y prosiect i greu cyflwyniad am Gymreictod iddyn nhw yn yr Hafan/ y noson cyn gwneud y cyflwyniad), neu ysgrifennu pwt o ddyddiadur y tri chymeriad er mwyn cyfleu tri gwahanol bersbectif.

ATODIAD 1

CERDIAU TRAFOD A MYNEGI BARN

Yn ôl Nico ar ddechrau'r ddrama, ei hoff beth ef am yr ysgol yw:

"Cofrestru. Fi yn caru cofrestru. Mae rhywbeth, like, magic am cofrestru achos ti ddim gorfod gwneud dim byd, like, strenuous... Dim trafod, dim gweithio mewn grwpiau and all that... Jyst eistedd."

Yn eich grwpiau, trafodwch beth yw hoff a chas beth pob aelod o'r grŵp am yr ysgol, gan roi rhesymau dros eich safbwyntiau.

Yn ôl Nico ar ddechrau'r ddrama:

"Athro cofrestru ni yw Ryan. Ryan Lao. Fi'n gwbod mae'n weird i ddweud ti'n caru athro, ond fi actually yn. Mewn ffordd edmygol, parchus, achos mae e ddim yn amharu, dyna'r gair. Jyst cool."

Trafodwch beth, ym marn y grŵp, sy'n gwneud athro da.

Meddyliwch am eiriau Mr. Davies / Greasy Kev, y dirprwy bennaeth, wrth Aden ar ddechrau'r ddrama:

"Mae gen ti gyfle yn yr ysgol hon am ddechreuad newydd, i fod yn rhan o gymuned... Ond mae disgwyl i bawb ddilyn yr un rheolau."

Trafodwch fel grŵp:

- Pam bod angen rheolau? Pa reolau amlwg sy'n rhaid i chi eu dilyn yn eich bywyd bob dydd? Ydy gormod o reolau yn beth da bob amser? Pam?
- Beth mae bod yn rhan o gymuned yn ei olygu i chi?

Wrth sôn am yr hyn yr hoffai wneud pan mae'n hŷn, mae Nico'n dweud:

"Byw ar ynys? Gweithio mewn goleudy? Am arian? That is my vibe...";

"Y'f fi'n rhannu syniad fi am y goleudy a'r ynys a pha mor cool mae'n swnio, mor unique...";

"Fi eisiau rhedeg lighthouse ar ynys bellennig. Tawelwch, natur, heddwch. Awesome."

Trafodwch fel grŵp:

- Beth fyddai swydd delfrydol pob aelod o'r grŵp, a pham?
- Beth sy'n eich denu at y swydd? Beth fyddai'r rhinweddau angenrheidiol ar gyfer pob un o'r swyddi, ym marn y grŵp?

Pan nad yw Aden eisiau gwrando ar Mr. Davies/ Greasy Kev, y dirprwy bennaeth, yn dweud y drefn wrtho ar ddechrau'r ddrama, mae'n dweud:

"... sa'i wir yn gryndo. Fi jyst yn dychmygu'n hunan yn rhedeg, rhedeg ar draws traeth rili hir wrth i'r haul godi."

Tafodwch fel grŵp:

- Am ble/ beth fyddwch chi'n meddwl pan fyddwch chi eisiau dianc i rhywle arall yn eich dychymyg i wneud i'ch hunan deimlo'n well?

Yn ôl Aden:

"Serious, faint o oedolion sy'n cymryd pobol oedran ni o ddifri?"

Trafodwch fel grŵp:

- O'ch profiad chi, ydy oedolion yn cymryd plant a phobl ifanc ddigon o ddifri?
- Oes digon o hawliau gan blant a phobl ifanc? Rhowch resymau i gefnogi eich safbwyntiau.

Wrth sôn am yr Hafan, mae Nico'n dweud:

"Pan fi eisiau space, dyma ble fi'n dod."

Tafodwch fel grŵp:

- I ble fyddwch chi'n mynd pan fyddwch chi eisiau llonydd/ amser ar eich pen eich hun? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan fyddwch chi yno?

Mewn un rhan o'r ddrama, mae Nico'n gwawdio Aden trwy ei alw'n ***"Mr Cymraeg Perffaith"***.

Trafodwch fel grŵp:

- Pa mor bwysig/ hanfodol yw hi ein bod ni'n defnyddio Cymraeg perffaith wrth siarad Cymraeg?
- Oes rhaid cael Cymraeg perffaith? Rhowch rhesymau i gefnogi eich safbwyntiau.

Yn ôl Nico,

"Fi'n hate-o amserlen dydd Mercher on the whole so, i wneud e'n well, fi'n cael jam sandwiches. Ffrindiau fi'n meddwl fi'n nyts yn cael jam sandwiches oedran fi, ond fi sy'n neud nhw, so fi sy'n penderfynu."

Trafodwch fel grŵp:

- Beth ydych chi'n ei wneud er mwyn gwneud sefyllfa nad ydych chi'n ei hoffi yn well?

Dydy Nico ddim yn awyddus i weithio fel grŵp i greu'r cyflwyniad am Gymru a Chymreictod ar y dechrau:

"So, fi di bod yn meddwl, beth am i fi neud thing fi, gei di neud thing ti a gei di neud thing ti. Easy."

Trafodwch fel grŵp:

- Pam nad yw Nico eisiau gweithio fel grŵp ar y dechrau?
- Sut mae ei agwedd ef a Kaia ac Aden yn newid erbyn diwedd y ddrama, a pham bod hyn yn digwydd?
- Ydy hi'n well eu bod nhw wedi gweithio fel grŵp yn y diwedd, yn eich barn chi?

Ewch ati fel grŵp i greu rhestr o'r ystrydebau am Gymru a Chymreictod mae Nico, Kaia ac Aden yn dod ar eu traws wrth ymchwilio i'w prosiect (e.e. cennin Pedr, Tom Jones, bara brith, cestyll, rygbi, ayyb).

Yna, ewch ati i greu eich rhestr eich hun, fel grŵp, o'r hyn mae Cymru a Chymreictod yn ei olygu i chi mewn gwirionedd.

Trafodwch:

- Sut mae'r ddwy restr yn cymharu?
- Oes un syniad cywir o Gymru a Chymreictod yn bodoli, mewn gwirionedd? Rhowch resymau i gefnogi eich safbwynt.

Yn ôl Nico,

"...fi'n hoffi canu yn y bore. Canu'n ffordd dda i ddechrau'r dydd."

Trafodwch fel grŵp:

- Beth ydych chi'n hoffi ei wneud er mwyn eich rhoi chi mewn hwyliau da ar ddechrau'r dydd?

Yn ôl Nico, wrth drafod yr iaith Gymraeg:

"'Da ni iaith sy'n wahanol i bawb arall. Nagyw hi'n dda i gael rhywbeth, like, exclusive?"

ac yn ôl Kaia:

"...wy'n twmlo'n lwcus. Mae'n sbeshal mewn rhyw ffordd."

Trafodwch fel grŵp:

- Ydych chi'n cytuno â safbwyntiau'r ddau?
- Sut ydych chi'n teimlo am y ffaith eich bod chi'n gallu siarad Cymraeg? Rhowch resymau i gefnogi eich
- safbwyntiau.

Yn ôl Aden:

"Mae rhai pobl yn meddwl bod emosiynau yn 'this or that', 'hwn neu'r llall'... Ond sai'n meddwl bo' emosiynau cweit mor straightforward â 'na."

Trafodwch fel grŵp:

- Ydych chi'n cytuno â geiriau Aden?
- Trafodwch y gwahanol emosiynau neu deimladau mae'r tri chymeriad yn eu profi ar wahanol adegau yn y ddrama ac ewch ati i greu rhestr ohonynt. Allwch chi feddwl am adegau pan rydych chi wedi profi emosiynau neu deimladau tebyg?

Ar un pwynt yn y ddrama, mae Kaia'n gofyn i Aden:

"Be' sy'n bwysig am Gymru i ti?"

Trafodwch fel grŵp:

- Sut fyddech chi'n ateb y cwestiwn hwn?

Wrth drafod gyda'i dad y ffaith fod ei ddau riant yn dod o Loegr, mae Nico'n dweud:

"'So does that make me English?" fi'n gofyn. Mae' e'n gwasgu pause ar y teledu ac yn troi i fi.
'Makes you whatever you feel,' mae e'n dweud.
'Okay. I just feel like me,' fi'n dweud. A ma hwnna'n wir."

Trafodwch fel grŵp:

- Oes rhaid i ddau riant person fod wedi eu geni yng Nghymru er mwyn i'r person deimlo ei fod yn Gymro neu Gymraes?
- Oes rhaid i'r person ei hun fod wedi ei eni yng Nghymru er mwyn teimlo ei fod yn Gymro neu Gymraes?
- Beth yw teimlo'n Gymro neu'n Gymraes, yn eich barn chi?
- Ydych chi eich hun yn teimlo eich bod yn Gymro neu Gymraes?

Rhowch resymau i gefnogi eich safbwyntiau.

Ystyriwch eiriau rhieni Kaia:

"Dwyt ti ddim i fynd yn ôl i'r 'Hafan' yna, dwyt ti ddim i gymysgu efo'r hogie yna, wyt ti'n clywed?"

Trafodwch fel grŵp:

- Pam nad yw rhieni Kaia eisiau iddi fynd i'r Hafan a bod yn ffrindiau gyda Nico ac Aden?
- Sut mae eu hagweddau nhw'n newid erbyn diwedd y ddrama, a pham?

Wrth sôn am Nico ac Aden wrth ei rhieni, mae Kaia'n dweud ar ddiwedd y ddrama:

"Ma'i 'di bod yn ddigon anodd ffeindio pobl sy'n licio fi ddigon i dreulio amser gyda fi, heb sôn am ffeindio pobl dwi actually eisiau bod o gwmpas, felly dwi am sticio gyda nhw am y tro."

Trafodwch fel grŵp:

- Er eu bod nhw'n wahanol iawn mewn nifer o ffyrdd, mae Kaia, Nico ac Aden yn dod yn ffrindiau da erbyn diwedd y ddrama. Pam hynny, yn eich barn chi? Sut mae eu
- cyfeillgarwch nhw'n newid a datblygu yn ystod y ddrama?
- Beth sy'n gwneud ffrind da, ym marn y grŵp?

Trafodwch fel grŵp:

- Beth yw prif themâu y ddrama?

Trafodwch fel grŵp:

- Beth yw ystyr/ arwyddocâd teitl y ddrama?

Trafodwch fel grŵp:

- Beth sy'n debyg/gwahanol rhwng agweddau'r tri phrif gymeriad, Kaia, Nico ac Aden, tuag at Gymru a Chymreictod?
- Ydy eu hagweddau nhw'n newid erbyn diwedd y ddrama? Sut/ym mha ffordd?

Mae'r tri phrif gymeriad yn mynd ar siwrnai ac yn newid a datblygu yn ystod y ddrama.

Trafodwch fel grŵp:

- Ydych chi'n cytuno â'r datganiad hwn? Rhowch resymau/ enghreifftiau i gefnogi eich safbwyntiau.

Y bore cyn iddyn nhw wneud y cyflwyniad yn y gwasanaeth, mae Kaia'n dweud:

"...ma'n stumog i'n troi. Falle 'mod i am chwydu. Reit fan hyn."

Trafodwch fel grŵp:

- Meddyliwch am adeg pan rydych chi wedi teimlo'n nerfus ynglŷn â gwneud rhywbeth. Rhannwch y profiad â gweddill y grŵp.
- Sut wnaethoch chi ymdopi â'r nerfusrwydd?
- Sut effeithiodd y profiad arnoch chi, yn feddyliol, yn emosiynol ac yn gorfforol? Sut oeddech chi'n teimlo ar ôl i chi gyflawni'r hyn roedd angen i chi ei wneud?

Mae cefndir y tri phrif gymeriad (Kaia, Nico ac Aden) yn wahanol iawn i'w gilydd, o ran bywyd cartref a theulu.

Trafodwch fel grŵp:

- Beth wyddoch chi am deulu a bywyd cartref y tri chymeriad?
- Beth sy'n gwneud 'teulu' a 'chartref', yn eich barn chi?

Trafodwch fel grŵp:

- Pwy yw eich hoff gymeriad yn y ddrama?

Rhowch resymau/ enghreifftiau i esbonio eich dewis.

Trafodwch fel grŵp:

- Pa un yw eich hoff olygfa yn y ddrama?

Rhowch resymau i esbonio eich dewis.

ATODIAD 1

Trafodwch fel grŵp:

- Sut mae perthynas y tri phrif gymeriad gyda'u rhieni/ gofalwyr yn newid a datblygu yn ystod y ddrama?

Mae mwy nag un ffordd o fod yn Gymro neu Gymraes dda.

Trafodwch fel grŵp:

- Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn?

Trafodwch fel grŵp:

- Beth sy'n wahanol rhwng y ffordd mae Kaia, Nico ac Aden yn siarad?
- Beth mae'r ffordd maen nhw'n siarad yn ei ddweud wrthon ni amdanyn nhw fel cymeriadau?

Meddyliwch am y dyfyniad hwn o gyflwyniad Kaia, Nico ac Aden ar ddiwedd y ddrama:

"Felly bydd yn eofn
I fod yn ti dy hun
A phaid â bod ofn..."

Trafodwch fel grŵp:

- Ydy'r tri phrif gymeriad yn llwyddo i ddilyn y cyngor hwn yn y ddrama? (h.y. i fod yn 'eofn' (dewr/mentrus), i fod yn nhw eu hunain ac i beidio â bod ofn?). Sut/ym mha ffordd/ pryd?
- Allwch chi feddwl am adeg pan rydych chi wedi bod yn eofn/dewr a di-ofn?

Trafodwch fel grŵp:

- Beth sy'n debyg/ gwahanol ynglŷn ag agweddau'r tri phrif gymeriad at eu Cymreictod?

Trafodwch fel grŵp:

- Faint o ddyfyniadau o ganeuon/ darnau o farddoniaeth Cymraeg wnaethoch chi eu hadnabod o gyflwyniad Kaia, Nico ac Aden am Gymru a Chymreictod ar ddiwedd y ddrama?

ATODIAD 2

CERDIAU TRAFOD TASG GRADDIO DIEMWNT

Mae Cymro/ Cymraes dda yn gallu siarad Cymraeg.

Mae Cymro/ Cymraes dda yn parchu'r Gymraeg a diwylliant Cymru, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gallu siarad Cymraeg.

Mae Cymro/ Cymraes dda yn falch o fod yn Gymro neu Gymraes.

Mae Cymro/ Cymraes dda wedi cael eu geni yng Nghymru.

Mae Cymro/ Cymraes dda yn gwybod geiriau'r anthem genedlaethol.

Mae Cymro/ Cymraes dda yn ceisio annog pobl eraill i siarad Cymraeg a bod yn falch o'u Cymreictod.

Mae Cymro/ Cymraes dda yn mwynhau gwylio tîm rygbi Cymru yn chwarae.

Mae Cymro/ Cymraes dda yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg.

Mae Cymro/ Cymraes dda yn byw yng Nghymru.

Mae Cymro/ Cymraes dda yn parchu'r ffaith fod nifer o wahanol ddiwylliannau i'w cael yng Nghymru.

Mae Cymro/ Cymraes dda yn gwerthfawrogi bod sawl gwahanol ffordd o fod yn Gymro neu Gymraes.



ATODIAD 2

CYTUNO FWYAF



CYTUNO LEIAF

CERDDORIAETH CYMRIX

Sganiwch y QR Code i glywed y gân:

Gwelir geiriau'r gân isod.

O Gymru, o Gymru
Ond beth os wyt ti ddim
Yn perthyn, yn fodlon
Yn hYderus, yn galonog

O Gymru, o Gymru
A beth yw'r ots 'da fi nawr
Os nad wyt ti o Gymru
Ti dal o'r Llwybr Llaethog

CYTGAN
O wlad beirdd a chantorion
Falle ti fydd yr enwogion
Fydd yn gwthio ffiniau'r wlad
A phleidiol wyf i'm stâd

Dwi'n perthyn, dwi'n fodlon
Ta beth yw fy acenion
Dwi'n ran o'r new Welsh remix
Yn Gymru, Cymraeg, Cymrix

Mae 'na rywbeth amdanat ti
A byth rhywbeth o'i le
Os ti o'r gogledd, y gorllewin
Y dwyrain neu o'r de

Cawsom wlad i'w chadw
Ond beth am draddodiadau
O siarad iaith y nefoedd
Ym mrad yr edrychiadau

Pwy ydw i?
Ai dyma ydw'i fod?
Jyst barddoni a cherdd dant
A rygbi ac Eisteddfod

Fan hyn gynnau fu'n geni
A fel'na ydw i
A fel'na ydw i fod
Goroesi ydyw'r nôd

CYTGAN
O wlad beirdd a chantorion
Falle ti fydd yr enwogion
Fydd yn gwthio ffiniau'r wlad
A phleidiol wyf i'm stâd

Dwi'n perthyn, dwi'n fodlon
Ta beth yw fy acenion
Dwi'n ran o'r new Welsh remix
Yn Gymru, Cymraeg, Cymrix

Bale a Bellamy, Ramsay, Rush
Fishlock, Dykes, Ward a Woodham
Hannah Jones, Abbie Fleming
Gareth Edwards, Warburton

Gwynfor, Cerys, Shirley, Tom
Charlotte, Alex, Lloyd a Dom
'Rhyn ti'n neud sy'n bwysig 'leni
Nid y man lle gest di d'eni

A thra bo calon lân yn fy mron
Mi fyddai'n ffyddlon i ti.

Oes na rhywun yn rhywle
Sydd eisiau Bach o hwnna?
Neu honna, hynny, hynnix?
Yn Gymry, Cymraeg, Cymrix.

Dim ots beth yw dy dras neu'th liw
Os wyt ti'n LGBTQ
Ma'r dyfodol iti'n hollol iach

Fory, fory, hen blant bach
Mae'n wlad i ti a'n wlad i mi
A phleidiol wyf i'm byd
Nawr paid ti byth anghofio
Ry'n ni yma o hyd.